

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG  
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A  
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**GORCHYMYN (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 7) 2022**

1. Ar 5 Medi 2022 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r Mannau Parcio a nodir yn Atodlen isod ar waith.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 12 Medi 2022 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 7) 2022"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 12 Medi 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**Ychwanegu atodlen AV53 at y map**

**Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg**

**Jewel Street Y Barri**

Ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Lower Pyke Street tua'r gogledd-ddwyrain am 10 metr.

Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Lower Pyke Street tua'r gogledd-ddwyrain am 10 metr.

**Lower Pyke Street Y Barri**

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Jewel Street tua'r gogledd-orllewin am 10 metr.

Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Jewel Street tua'r de-ddwyrain am 10 metr.

Dyddiad: 8 Medi 2022.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA